

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Ebrill 2ail 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, April 2nd 2024 at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens, Caerwyn Owen, Melva Phillips, Jonathan Rees, Gareth Evans, Teifi Davies, Elen Mathias, Walwyn Jones, William Anwyl.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/ *Councillors* Gwyn James, Barri Davies.

2 Materion Personol/Personal Matters

Dim byd i'w gofnodi/*Nothing to report*

3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes

Cynigiwyd gan Teifi eu bod yn gywir a'i eilio gan Caerwyn
Motioned to be correct by Teifi and seconded by Caerwyn

4 Datganiad Derbyn Swydd/Declaration of Acceptance of Post

Braint yn wir oedd medru derbyn Elen yn aelod cyflawn o'r Cyngor hwn. Arwyddodd y ddogfen briodol er mwyn cadarnhau hynny a dymunwn y gorau iddi yn y dyfodol yn ein plith.
It was a privilege to accept Elen as a full member of this Council. Elen signed the relevant documentation to authorise everything as the other members wished her the very best in the future in our midst.

5 Materion yn Codi/Matters Arising

i) Cyfethol Aelod/*Co-opting Member*

Bu'r Clerc mewn cysylltiad gydag Adran Etholiadol y Cyngor Sir yn ddiweddar er mwyn cwblhau'r gorchwyl o gyfethol aelod newydd i'r Cyngor hwn. Penllanw y gwaith hwn yw medru derbyn Elen yn aelod cyflawn o'r Cyngor heno.
The Clerk has been in contact with the County Council's Electoral Department recently in order to finalise the co-opting of a new member. The end result following these enquiries is that we can formally accept Elen as a full member tonight.

ii) Graham Jones a'r Beic Gwaed/*Graham Jones and the Blood Bike*

Cadarnhaodd Graham wrth y Clerc y medrai ddod gyda'r Beic Gwaed i un o gyfarfodydd y Cyngor, gyda'r bwriad o dynnu llun yn cyflwyno rhodd i'r elusen. Mae'n bosibl y gall ddod yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor ddechrau mis Mai.
Graham Jones confirmed to the Clerk he would be able to attend a Council Meeting with his Bike Blood, with the intention of taking an official photograph of presenting our donation. He suggested he would attend next month's meeting.

iii) Arolwg 20 mya a ffyrdd eraill/ *20 mph survey and other routes*

Mewn ymateb i gais Elin Jones AS Cymru am ragor o sylwadau gan yr aelodau am y polisi terfyn cyflymder 20 mya a diogelwch ffyrdd yn gyffredinol, penderfynodd yr aelodau lunio rhestr o'r ffyrdd sydd angen eu hadolygu.
In response to Elin Jones's request for further advice from the members regarding the 20 mph speed limit and road safety in general, the Council listed the roads that need some reviewing.

Dyma'r Rhestr/*The List*

Y ffordd (heb ei chategoreiddio) sydd yn cychwyn o sgwar Tanygroes gyferbyn â'r Capel ac yn arwain tuag at gyffordd Deiniol. (Wynnstay). Nid oes unrhyw derfyn wedi'i nodi ond yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae mwy o dai wedi'u codi ar hyd y ffordd hon. Awgrymwyd gan yr aelodau o bosibl bod angen terfyn cyflymder o 20 mya hyd at y tai ac yna 30 mya o hynny ymlaen.

The road from Tanygroes Square opposite the Chapel (unclassified) leading to the Junction towards Deiniol. (Wynnstay). At present there is no speed restriction, but recently house building has increased along this road. It was suggested by members that a speed limit of 20 mph was needed as far as the housing and increased to 30 mph onwards.

Y ffordd o gyfeiriad Rhydlewys i Glynarthen heibio Blaenwinllan a Llwyncelyn.

Unwaith eto nid oes terfyn cyflymder ar hyd yr heol hon. Nodwyd pe bai terfyn yn cael ei osod ar hyd hon, dylid gosod terfyn o 30 mya ac nad oes angen iddo fod yn 20 mya.

The route from Rhydlewys to Glynarthen via Blaenwinllan and Llwyncelyn. Once more, at present there is no set limit along this route. It was noted that if one were to be set, it ought to be a 30 mph limit, with no need for a 20 mph limit.

Y Gyffordd ar Sgwar Gogerddan a Thanygroes. Wrth ddringo o gyfeiriad Blaenporth y terfyn cyflymder wrth gyrraedd cyffordd Gogerddan yw 50 mya gan ostwng i 40 mya trwy Danygroes. Nodwyd pa mor beryglus yw'r gyffordd hon wrth i drafnidiaeth Aberporth a Biwla ymuno â'r brif ffordd. Awgrymwyd y dylid cael un parth 40 mya gan gychwyn o'r terfyn 50 mya presennol wrth y gyffordd a gorffen wrth adael Tanygroes.

Gogerddan Junction and Tanygroes. The speed limit approaching Gogerddan from Blaenporth is 50 mph reduced to 40 mph through Tanygroes. It was noted how dangerous this Junction can be with traffic from Aberporth and Beulah joining the main road. It was suggested having one 40 mph zone beginning just before the junction and terminating as traffic exits Tanygroes.

Llinellau Gwyn Dwbl rhwng Tanygroes a Sarnau. Pwysleisiwyd yr angen unwaith eto am adolygu diogelwch darn troellog o'r A487 rhwng y ddau bentref. Yr ydym fel Cyngor eisoes wedi crybwyll hyn wrth yr Asiantaeth Ffyrdd yng Nghonwy.

Double White Lines between Tanygroes and Sarnau. The need to review the safety of the A487 between these villages was raised once more. This Council has already corresponded with the Trunk Road Agency at Conwy regarding this matter.

6 Cyllid/Finance

i) Balans Cyfrif/Account Balance

Yn dilyn y taliad am gostau gweinyddol y Clerc y balans bellach yw £7179.95. Telir taliad cyntaf y Praesept eleni yn ystod y dyddiau nesaf.

Following the payment for the Clerk's administrative costs the balance amounts to £7179.95. The first Precept payment for this year will be received shortly.

ii) Cangen Banc Lloyds yn cau/Closure of Lloyds Bank branch

Clywyd yn ddiweddar y bydd y gangen uchod yn cau gan beri anghyfleustra posibl i'n trefniant bancio. Nodwyd bod popeth bron bellach yn cael ei drafod dros y ffôn. Yr awgrym gan rai oedd y dylem efallai ddechrau ystyried bancio ar lein.

It was announced recently that this branch will close causing possible inconvenience to our banking procedure. Noted also was that all banking arrangements are made

by telephone nowadays. The suggestion by some was that maybe we ought to consider online banking in the future.

iii) **Prynu Argraffydd/Purchase of Printer**

Cytunodd Graham Jones i brynu argraffydd newydd i'r Cyngor at ddiben hwyluso gweinyddiaeth y Cyngor a'r Clerc.

Graham Jones agreed to purchase a new printer in order to facilitate the Council's administration.

iv) **Rhoddion i Fudiadau ac Elusennau/Donations to Organisationa and Charities**

Yn sgil y ffaith fod y Cyngor yn derbyn nifer cynyddol o geisiadau gan fudiadau, a bod dim rhagor o gyllid i'w ddosbarthu, gofynnodd y Clerc am gyfarwyddyd gan yr aelodau. Beth yw blaenoriaethau yr aelodau? Ai cefnogi achosion mwy lleol yw'r nod? Wrth bwysu a mesur y gwahanol ddewisiadau, awgrymodd Gareth y dylid penodi dau gyfnod penodol ar gyfer dosbarthu cymorth ariannol, misoedd Medi a Chwefror o bosibl. Cytunwyd i drafod hwn eto.

The Clerk asked the members for guidelines and criteria regarding the distribution of donations. Following an increase in the number of applications received and no increased funds available, what are the members' priorities? Do they wish to support more local causes? Following a proposal by Gareth to designate 2 specific occasions to distribute the donations, possibly September and February, it was agreed to discuss this further.

7 Cynllunio/Planning

- i) A240169 FRONLWYD, LLANGRANNOG, SA44 6RR

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

8 Gohebiaeth/Correspondence

- i) Eglwys Penbryn/Penbryn Church

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd Eglwys Penbryn yn diolch am yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Glerc y Cyngor Cymuned. Cynnwys y llythyr gwreiddiol oedd egluro wrth yr Eglwys ym mha fodd y gall y Cyngor, o bosibl, gyfrannu tuag at ddatblygu maes parcio'r Eglwys.

Correspondence was received from the Secretary of Penbryn Church thanking this Council for the previous letter. That letter stated how the Community Council could, possibly, contribute towards the development of the Church's car park.

9 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- i) Coeden ger Capel Penmorfa/Tree nearby Penmorfa Chapel

Cyfeiriodd Jonathan at y ffaith fod coeden wedi cwmpo gerllaw'r Capel. Dywedodd y byddai'n mynd draw i alw gyda Steve Welch er mwyn gweld a ydyw wedi'i symud ai peidio?

Jonathan referred to the fact that a tree had fallen during the winds near Penmorfa Chapel. He added that he would call to make enquiries with Steve Welch in order to see if it had been moved?

- ii) Meinciau Tresaith/Tresaith Benches

Dywedodd Walwyn fod Pwyllgor Lles Tresaith wedi cyfarfod gan drafod yr angen am feinciau newydd. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi cefnogi hyn mewn egwyddor

yn gynt. Felly anogwyd y Pwyllgor Lles i ohebu â'r Cyngor Cymuned er mwyn ein hysbysu o'u bwriadau.

Walwyn stated that Tresaith Welfare Committee had convened and discussed the need for new benches. The Community Council has already previously declared its support in principle. Therefore they were urged to correspond with this Council to inform us of their plans.

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Mai 7ed 2024 am 7.30 y.h.

The next meeting will be held on Tuesday May 7th, 2024 at 7.30 p.m.